

# Cyngor Trydydd Sector Caerdydd

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol



## 7. Dod o hyd i arian a'i gael

### 7.11 Codi Arian Corfforaethol a Phartneriaethau

Mae cysylltu â chwmnïau i ofyn am arian neu gymorth arall yn parhau i fod yn dasg gymharol anhysbys i lawer o grwpiau gwirfoddol a chymunedol. Yn aml nid yw grwpiau'n gwybod sut y gall codi arian corfforaethol weithio na sut i fynd ati. Nid yw denu arian gan gwmnïau yn golygu y dylech newid yr hyn rydych yn ei wneud na sut rydych yn ei wneud. Efallai y bydd yn rhaid i chi 'werthu' eich hun mewn ffordd ychydig yn wahanol.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, bu newid mewn codi arian corfforaethol tuag at ddull gweithio mewn partneriaeth. Er bod llawer o gyfleoedd o hyd ar gyfer Elusen y Flwyddyn a mathau eraill o roddion gan gwmni i elusen, mae mwy a mwy o gysylltiadau rhwng cwmnïau ac elusennau yn llifo i'r ddau gyfeiriad, ac maent o fudd i'r ddwy ochr.

Mae "corfforaethol" yn y cyd-destun hwn yn golygu unrhyw gwmni preifat (cyhoeddus a gwirfoddol hyd yn oed neu mewn rhai achosion ar gyfer cymorth mewn nwyddau). Gallai hyn amrywio o gwmni FTSE100 i siop y gornel.

Gall codi arian corfforaethol a phartneriaethau gyda sefydliadau corfforaethol fod yn fuddiol iawn. Yn yr un modd â phob math o godi arian, rydym yn argymhell eich bod yn cymryd amser i ystyried yr hyn yr ydych yn gobeithio ei gyflawni drwy godi arian corfforaethol, a meddwl yn strategol am sut i gael y canlyniadau hynny gan ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael i chi.

### **Pam mae cwmnïau'n cefnogi elusennau?**

Mae nifer o resymau pam y gallai cwmni ddewis cefnogi elusen neu grŵp cymunedol. Mae hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Ennyn ewyllys da (yn fewnol gyda'u staff ac yn allanol gyda chwsmeriaid a rhanddeiliaid eraill)
- Denu sylw gwerthfawr yn y cyfryngau a Chysylltiadau Cyhoeddus
- Marchnata nwyddau a gwasanaethau i gynulleidfaoedd penodol (hy rhanddeiliaid yr elusen)
- Atgyfnerthu brand neu ddelwedd gorfforaethol
- Ymgysylltu â gweithwyr a datblygiad proffesiynol
- Cyfrifoldeb Corfforaethol Cymdeithasol
- Dyngarwch cyffredinol ymhlith y rhai sy'n gwneud penderfyniadau

Mae cwmnïau'n aml yn chwilio am achosion sydd fwyaf perthnasol i'w busnes. Gallai hyn fod yn gyswllt daearyddol neu'n gyswllt gyda chynnyrch. Er enghraifft, gallai cwmni larymau gefnogi menter lleihau troseddau. Mae cwmnïau eraill yn cefnogi elusennau fel rhan o'u gwaith ymgysylltu â gweithwyr; gan ofyn i staff enwebu elusennau i gefnogi neu, er enghraifft, rhoi arian sy'n cyfateb i nawdd a godir gan y staff.

## Y math o help y mae cwmnïau'n ei roi

**Rhoddion mewn nwyddau** - yn aml bydd cwmnïau'n rhoi rhai o'u gwasanaethau, cynnyrch, deunydd neu hen offer swyddfa fel dodrefn a chyfrifiaduron. Mae rhai grwpiau'n cael swyddfa am ddim neu am bris gostyngol, gwasanaethau llungopïo neu wasanaethau argraffu gan gwmnïau lleol.

**Cyngor a chymorth** - weithiau gallwch gael cyngor neu wasanaethau arbenigol am ddim gan gwmnïau lleol fel cyfreithwyr neu gyfrifwyr.

**Cysylltiadau ym myd busnes** - gall help uwch arweinwyr busnes fod yn ddylanwadol iawn wrth rwydweithio ag eraill ym myd busnes a chodi arian ganddynt.

**Secondiad gweithwyr / gwirfoddoli / ymddiriedolaeth** - bydd rhai cwmnïau'n anfon staff ar secondiad i helpu grwpiau lleol neu drefnu i'w staff wirfoddoli gyda'ch grŵp am gyfnod penodol o amser i gyflawni gweithgareddau a nodwyd. Mae enghreifftiau cyffredin o hyn yn cynnwys garddio, ailaddurno gofod a gweithgareddau codi arian (DS: mae elusennau mwy a sefydliadau'r sector cyhoeddus hefyd yn cynnig cyfleoedd gwirfoddoli fel hyn i'w staff, nid cwmnïau preifat yn unig). Mae bod yn ymddiriedolwr yn rhoi cyfleoedd datblygu proffesiynol rhagorol i weithwyr cwmnïau, yn enwedig i bobl sy'n gobeithio symud i rolau rheoli yn eu gwaith, ac elusennau ag arbenigedd proffesiynol y gallai eu helusen fod yn brin ohonynt (er enghraifft ym maes Adnoddau Dynol neu gyllid)

**Arian** - mae dwy brif ffordd o gael cymorth ariannol gan gwmnïau:

- **Rhoddion** - mae'r cwmni'n rhoi arian parod i'ch grŵp fel 'achos da'. Gall y cwmni gael rhyddhad treth ar y rhoddion hyn ond nid yw'n cael unrhyw beth arall yn gyfnewid am ei arian. Mae cynlluniau Rhoi o'r Cyflogres yn caniatáu i weithwyr roi rhoddion drwy'r gyflogres. Gwneir rhoddion cyn treth, felly dim ond 80c (60c ar gyfer enillwyr cyfradd uwch) y mae pob rhodd o £1 yn ei gostio.
- **Nawdd** - dyma un o'r ffyrdd o hyrwyddo brand ac enw da cwmni i'r cyhoedd, wrth helpu 'achos' teilwng. Mae'n wahanol i rodd gan fod y cwmni'n cael - ac yn disgwyl - rhywbeth yn gyfnewid am ei gefnogaeth. Gallai hyn fod mor fach â logo ar gryst neu raglen neu mor fawr ag ailenwi adeilad (e.e. Virgin Money London Marathon).

Gellir cynnig nawdd ar ffurf arian neu nwyddau. Er enghraifft, mae darparu cyfarpar, cynnig arbenigedd busnes neu secondio gweithwyr, i gyd yn fathau o nawdd mewn nwyddau. Mae'n bwysig bod gan y grŵp neu'r prosiect y maen nhw'n dewis ei noddi enw da ac y bydd y gymdeithas yn gwella delwedd gyhoeddus y cwmni drwy:

- **Godi mwy o ymwybyddiaeth o'r brand** - mae'r cyhoedd yn dod i adnabod enw a logo'r noddwr a byddant, gobeithio, yn dewis cynnyrch neu wasanaethau'r noddwr yn hytrach na chystadleuwyr.
- **Sylw yn y cyfryngau** - mae nawdd yn creu cyfleoedd i enw a/neu logo'r noddwr ymddangos yn y cyfryngau.
- **Cysylltiadau â chwsmeriaid** – mae nawdd yn cynnig cyfleoedd i wahodd cleientiaid i ddigwyddiadau (lletygarwch) a/neu gyfathrebu â'r chwsmeriaid drwy gyhoeddusrwydd nawdd.
- **Cysylltiadau â gweithwyr** - mae rhaglenni nawdd yn annog balchder mewn cwmnïau, yn cynyddu teyrngarwch ac yn helpu i recriwtio a chadw staff o safon. Mae hefyd yn cynnig cyfleoedd i weithwyr gymryd rhan yn y rhaglen (secondiad, mynychu digwyddiadau ac ati)

Os ydych yn chwilio am nawdd, mae angen i chi fod yn glir iawn ynglŷn â'r union beth rydych chi'n ei gynnig i'r cwmni yn gyfnewid am hynny.

DS: Os ydych wedi cofrestru ar gyfer TAW, mae nawdd yn cyfrif fel incwm masnachu at ddibenion TAW. Ni all y cwmni hawlio consesiynau treth ar nawdd hyd yn oed os ydych chi'n elusen.

- **Partneriaeth** - mae hyn yn dod yn ffordd fwy poblogaidd i elusennau a chwmnïau weithio gyda'i gilydd. Mae'n berthynas fwy trafodol lle mae'r elusen yn cynnig ei gwasanaethau yn gyfnewid am gymorth ariannol neu gymorth mewn nwyddau. Er enghraifft, gallai elusen iechyd meddwl roi hyfforddiant cymorth cyntaf iechyd meddwl "am ddim" i weithwyr cwmni yn gyfnewid am rodd ar ffurf arian parod ac un diwrnod o wirfoddoli gan y staff. O safbwynt yr elusen, mae'n bwysig sicrhau bod gwerth yr hyn rydych chi'n ei dderbyn gan y bartneriaeth yn fwy na gwerth yr hyn rydych chi'n ei roi, yn ariannol ac o ran yr amser staff sydd ei angen i gynllunio a chyflawni'ch cyfraniad at y bartneriaeth.

## **Sut i ganfod cefnogwyr neu bartneriaid corfforaethol posibl**

Wrth feddwl pa gwmnïau i fynd atynt, mae'n bwysig cofio mai eu prif bryder yw gwneud elw - nid rhoi i elusen. Felly mae'n bwysig iawn gwneud eich gwaith cartref a chysylltu â chwmnïau y credwch a allai fod â diddordeb yn eich achos, er enghraifft oherwydd eich bod chi'n adnabod rhywun yno, maen nhw wedi'u lleoli yn eich ardal chi, neu mae cysylltiad rhwng yr hyn rydych chi'n ei wneud a'u cynnyrch neu wasanaethau.

Cam cyntaf da yw siarad â'ch ymddiriedolwyr, staff a gwirfoddolwyr i a) canfod i bwy maen nhw neu aelodau o'u teulu yn gweithio ac os neu sut mae'r cwmnïau hynny'n dewis pa elusennau i'w cefnogi b) sicrhau bod pob aelod o staff, ymddiriedolwr a gwirfoddolwr yn gallu ac yn ddigon hyderus i sgwrsio<sup>1</sup> am eich sefydliad. Drwy hynny, gallai pawb yn eich sefydliad gychwyn sgwrsiau a allai arwain at gefnogaeth gorfforaethol.

<sup>1</sup> <https://fundraising.co.uk/2008/12/24/how-good-your-elevator-pitch/#.XXo14vIKi70>

Mae cylchgronau lleol, Siambrau Masnach a hyd yn oed y llyfr ffôn hefyd yn lleoedd da i ganfod darpar gefnogwyr corfforaethol.

## **Sut i gysylltu â cwmnïau?**

Mae cwmnïau'n cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol am amryw resymau. Y mwyaf o fuddion rydych chi'n eu cynnig a'r mwyaf creadigol ydych chi, y mwyaf tebygol fyddwch chi o lwyddo.

- Dylech ddarganfod enw'r sawl y dylech gysylltu ag ef - peidiwch ag anfon cylchlythyrau wedi'u cyfeirio at 'Annwyl Syr/Madam'. Gwnewch ychydig o waith ymchwil dros y ffôn i ddarganfod pwy sy'n gyfrifol am roddion elusennol neu nawdd. Gallai hyn fod yn farchnata neu gysylltiadau cyhoeddus, adnoddau dynol (os ydych yn cynnig cyfle neu hyfforddiant gwirfoddoli), yr unigolyn â chyfrifoldeb dros ymgysylltu â'r gymuned neu gyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol neu hyd yn oed y Prif Weithredwr.
- Cyflwynwch gynnig clir. Efallai mai eich cysylltiad cyntaf â'r cwmni fydd darganfod beth yw ei flaenoriaethau cyfredol - bydd hyn yn eich galluogi i lunio cynnig a fydd yn ei helpu i gyflawni eu blaenoriaethau.
- Os ydych yn ysgrifennu llythyr neu e-bost mae angen iddo fod yn fyr ac yn gryno - un ochr A4 yn ddelfrydol.
- Efallai y bydd yn cymryd peth amser i gael ymateb. Efallai y bydd yn rhaid i gwmnïau neu gadwyni mawr gael caniatâd gan brif swyddfa. Os ydych wedi ysgrifennu i ddechrau, ystyriwch ddilyn hyn gan alwad ffôn ar ôl ychydig wythnosau a darganfod a oes amserlen ar gyfer gwneud penderfyniadau.
- Os oes gan y cwmni bolisi ar gyfrannu at achosion da neu ddarparu nawdd, mae'n ddigon posibl y bydd wedi bod yn cynllunio, yn aml ers blwyddyn neu fwy. Os ydych wedi colli'r cyfle mwyaf diweddar, gofynnwch am ddyddiadau'r rownd nesaf fel y gallwch ei gynnwys yn eich amserlen.
- Byddwch yn realistig o ran eich disgwyliadau.
- Cofiwch ddweud diolch os ydych chi'n cael help gan gydnabod eu cefnogaeth ym mha bynnag ddull rydych chi wedi cytuno â nhw.
- Os ydyn nhw'n dweud “na” gofynnwch am adborth a darganfod pa fath o “na” ydyw. Efallai nad yw eich cynnig yn hollol iawn ond y byddai'n cael ei dderbyn gyda rhai mân newidiadau. Os “na, nid nawr” yw'r ymateb, gofynnwch pryd fyddai'n amser priodol i gysylltu â'r cwmni eto. Os “na, byth” yw'r ateb, gwnewch yn siŵr eich bod yn tynnu ei enw oddi ar eich rhestr gyswllt.

## **Cofiwch, gallwch chi ddweud na hefyd**

Peidiwch â bod ofn cerdded i ffwrdd oddi wrth bartneriaeth bosibl. Ar ôl dechrau trafodaethau gyda'r cwmni, efallai y gwelwch eu bod yn gofyn am ormod yn ôl, bod achos o wrthdaro buddiannau neu nad yw polisïau a moeseg y cwmni yn cyd-fynd â'ch rhai chi. Dylai unrhyw berthynas gyda chefnogwr corfforaethol fod o fudd i'ch sefydliad.

## Cytundebau

Os ydych chi'n creu partneriaeth gyda chefnogwr corfforaethol, mae'n bwysig bod y ddau bartner yn deall yr hyn sy'n ofynnol a sut y caiff y bartneriaeth ei chyflawni. Cytunwch ar Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth neu Gytundeb Partneriaeth gyda'ch cefnogwr corfforaethol sy'n amlinellu'r hyn y gall pob partner ddisgwyl ei gael a'i gyflawni, sut y bydd y partneriaid yn cyfathrebu ac yn delio ag unrhyw broblemau sy'n codi. Gallai cynllun cyfathrebu hefyd fod yn rhan o'r ddogfen hon i helpu i sicrhau bod y bartneriaeth yn cael ei hyrwyddo i randdeiliaid y ddau sefydliad.

Gall cytundebau nawdd wedi'u llofnodi hefyd fod o fudd er mwyn osgoi gwario arian ar ddeunyddiau hyrwyddo wedi'u brandio neu gyllidebu ar gyfer digwyddiad sy'n dibynnu ar y nawdd ar gyfer rhywfaint o wariant (e.e. mae Brecon Carreg yn aml yn noddi digwyddiadau, gan arbed gwerth cannoedd o bunnoedd o ddŵr i'r trefnwyr) ac yna'n peidio â derbyn yr arian.

## Adnoddau defnyddiol

[www.fundraisingregulator.org.uk/code/corporate-partnerships](http://www.fundraisingregulator.org.uk/code/corporate-partnerships) - Cod Ymarfer Codi Arian, Partneriaethau Corfforaethol

[www.bitc.org.uk](http://www.bitc.org.uk) - Busnes yn y Gymuned

[www.institute-of-fundraising.org.uk](http://www.institute-of-fundraising.org.uk) – Institute of Fundraising (gan gynnwys arweiniad ar Godi Arian Corfforaethol a Gwrthod Anrhegion)

[www.companieshouse.gov.uk](http://www.companieshouse.gov.uk) - edrychwch ar gwmni

[www.yell.com](http://www.yell.com) - dod o hyd i fusnes

[www.britishchambers.org.uk/page/join-a-chamber](http://www.britishchambers.org.uk/page/join-a-chamber) - dewch o hyd i'ch Siambrau Masnach lleol

[www.payrollgiving.co.uk/](http://www.payrollgiving.co.uk/) - Rhoi o'r Gyflogres

*The Guide to UK Company Giving 2007/08* gan John Smyth a Denise Lillya, Cyfeiriadur Newid Cymdeithasol, Mawrth 2007

*Corporate Fundraising* golygwyd gan Valerie Morton, Charities Aid Foundation, 2002 (disgwylir rhifyn newydd ym mis Mehefin 2007)

*Finding Company Sponsors for Good Causes* gan Chris Wells, Cyfeiriadur Newid Cymdeithasol, 2001

## Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

### Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

**Cyngor Trydydd Sector Caerdydd**

*Tŷ Baltic, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd, CF10 5FH*

**Elusen Gofrestredig:** 1068623

**Ffôn:** 029 2048 5722

[enquiries@c3sc.org.uk](mailto:enquiries@c3sc.org.uk)

**Ffacs:** 029 2046 4196

[www.c3sc.org.uk](http://www.c3sc.org.uk)

Cynhyrchwyd gan CGGC, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli

**Wedi ei ddiweddarau:** 25/11/2019

The logo for WcVA CgGC is displayed on a red rectangular background. The text 'WcVA' is in a white, bold, sans-serif font, with a horizontal line underneath it. Below the line, the text 'CgGC' is also in a white, bold, sans-serif font.

Ffôn: 0300 111 0124  
[www.wcva.cymru](http://www.wcva.cymru)